

Comisiynydd Drama

Disgrifiad swydd

Fel un o dîm o Gomisiynwyr Cynnwys byddwch yn cydweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys i greu a goruchwyllo strategaeth gynnwys aml-lwyfan ar gyfer S4C. Byddwch yn ddolen gyswilt allweddol, adeiladol a blaenweithgar gyda'r sector gynhyrchu annibynnol drwy gydweithio, creu a meithrin syniadau ar y cyd er mwyn adnabod a meithrin datblygu cynnwys poblogaidd, perthnasol a chyfoes o'r safon uchaf.

Ymhlith y dyletswyddau fydd:-

- Cyfrifoldeb penodol am gynnwys drama aml-lwyfan S4C
- Ymweld yn rheolaidd â chwmnïau annibynnol i drafod syniadau.
- Cydweithio yn agos gyda'r BBC wrth oruchwyllo cynnwys drama a gynhyrchir gan y BBC i S4C fel rhan o'r bartneriaeth strategol
- Cyd-weithio gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys i gomisiynu cynnwys drama ar gyfer rhaglenni a holl gynnwys gwasanaethau teledu ac aml-lwyfan S4C yn unol â strategaethau rhaglenni ac aml-lwyfan S4C;
- Sicrhau dealltwriaeth lawn o sgôp a phwrpas strategaethau cynnwys, aml-lwyfan a chorfforaethol S4C er mwyn gwireddu'r amcanion.
- Esblygu ac arwain strategaeth rhyngwladol a chyd-gynhyrchiadau drama S4C
- Trafod a datblygu syniadau newydd a rhai sydd eisoes yn cael eu datblygu yn rheolaidd gyda chwmnïau annibynnol ac unigolion yn y sector gynhyrchu er mwyn comisiynu cynnwys gwreiddiol, beiddgar a phoblogaidd; Adnabod cyfleoedd i ehangu a datblygu ein cynnwys, gan gynnwys tiriogaethau a thalent newydd.
- Gwrando a chymryd adborth a mewnbwn cynhyrchwyr i syniadau a chyfeiriad polisi ac adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys a'r Prif Weithredwr;
- Bod ar draws pob cam o'r broses yn dilyn comisiynu'r cynnwys gan gynnwys: datblygu'r syniad a'r sgriptiau, penderfyniadau cyllidebol, yr ariannu, castio (yn unol â pholisi castio S4C) cydymffurfiaeth, cynhyrchu, ôl-gynhyrchu, cyfleu a hyrwyddo.
- Cyfathrebu a chydweithio gydag adrannau mewnol S4C, megis Cynllunio, Cyfathrebu a Phartneriaethau, Cefnogi Cynnwys.
- Cyfathrebu amcanion comisiynu a strategaeth gynnwys S4C i'r sector creadigol a'r timau cynhyrchu, a darparu cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn.
- Annog syniadau a chynnwys perthnasol a sicrhau bod syniadau a gomisiynir yn cael eu datblygu i fod yn rhaglenni o'r safon uchaf.
- Sicrhau dealltwriaeth gref o ran cost, safon, dyddiad derbyn, hawliau a.y.b. ar draws y sector.
- Bod yn gyfrifol am reolaeth ariannol a chydymffurfiaeth effeithiol ar gyfer pob prosiect ar y cyd gydag aelodau tîm Materion Busnes S4C.

- Bod yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthynas gyda phartneriaid amrywiol, cynnal a gweithredu cynlluniau uchelgeisiol amrywiol i ee ddatblygu talent a chyd-gynhyrchu prosiectau.
- Adnabod cyfleoedd ac arwain ar gynlluniau i ddatblygu talent
- Annog diwylliant uchelgeisiol a beiddgar sy'n barod i gymryd risg.
- Cynrychioli S4C mewn fforymau cyhoeddus, cynadleddau, rheithgorau a.y.b.
- Rheoli staff gweinyddol yr adran yn ôl y gofyn
- Ymweld â chwmnïau ar leoliad.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

Yn ogystal, byddwch yn:-

- Cydweithio gyda'ch cyd-aelodau staff ac eraill i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion corfforaethol ac yn cyflawni rhagoriaeth greadigol yn unol â Strategaeth Gynnwys S4C
- Sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn gyson â'r ymrwymïadau statudol a strategol.
- Hybu cyfathrebu effeithiol er mwyn cyrraedd yr amcanion corfforaethol.
- Cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd sydd yn ymwneud yn benodol â'ch prif gyfrifoldebau unigol ac yn fwy eang lle mae budd i S4C yn gyffredinol.
- Gweithio mewn modd sy'n cyd-fynd â nod S4C i ddarparu awyrgylch gwaith parchus, urddasol a diogel ar gyfer eich cydweithwyr.
- Er mwyn sicrhau man gwaith diogel ar gyfer staff byddwch yn gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch ac yn gweithredu argymhellion asesiadau risg.
- Gweithredu mewn modd sydd yn hybu amgylchedd cyfeillgar.
- Cefnogi nodau S4C mewn perthynas ag amrywiaeth, gan gynnwys anabledd, a hybu ymarfer da.

Manyleb person

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|------------------------------------|--|---|
| <p>Profiad</p> | <p>Profiad o gynhyrchu a goruchwylio cynnwys ar lefel uchel ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth, cyllid a chyd-gynhyrchu.</p> <p>Ymwybyddiaeth o Strategaeth Gynnwys S4C a Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Ymwybyddiaeth o'r farchnad drama rhyngwladol a'r gallu i adnabod cyfleoedd creadigol a masnachol</p> <p>Profiad o ddatblygu, cynhyrchu neu oruchwylio cynnwys drama arloesol ar gyfer gwahanol ddarlledwyr, ddefnydd a phwrpasau.</p> <p>Profiad o reoli cyllidebau sylweddol.</p> | <p>Yn brofiadol ym maes cynhyrchu a/neu ddarlledu.</p> <p>Ymwybyddiaeth neu brofiad o weithredu yn unol ag ymarfer gorau o fewn gwasanaeth cyhoeddus.</p> |
| <p>Sgiliau a gwybodaeth</p> | <p>Y gallu i adnabod cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau gwefreiddiol.</p> <p>Profiad o weithio gyda chynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr yn effeithiol.</p> <p>Dealltwriaeth o dalentau cynhyrchu a chyfarwyddo ym maes drama yng Nghymru.</p> <p>Profiad helaeth yn datblygu syniadau a sgriptiau ar gyfer dramâu, cyfresi, aml-blatfform a ffilmiau</p> <p>Gweledigaeth ar sut i ddarganfod talentau newydd a'u meithrin.</p> <p>Gweledigaeth ar sut i ddarparu cynnwys beiddgar o'r safon uchaf sydd yn adlewyrchu themâu cyfoes a realiti bywyd yng Nghymru.</p> <p>Dealltwriaeth o gyfathrebu digidol a'r gallu i adnabod a deall natur a dyheadau'r gynulleidfa ar gyfer gwasanaethau cynnwys traddodiadol, digidol ac aml-lwyfan.</p> <p>Ymwybyddiaeth o gynnwys aml-gyfryngol a dealltwriaeth o ddefnyddio platfformau eraill ar wahân i deledu.</p> <p>Barn olygyddol gadarn a'r sgiliau i roi adborth clir ac arbenigol yn ystod y broses cynhyrchu.</p> <p>Ymwybyddiaeth o ganllawiau cydymffurfio S4C ac Ofcom a'r fframwaith rheoleiddio yn ymwneud â chynnwys.</p> | <p>Ymwybyddiaeth o gytundebau gydag undebau talent a'u heffaith ar gomisiynu a defnyddio cynnwys.</p> |

| | | |
|-----------------------------------|---|--|
| | <p>Y gallu i gydweithio'n greadigol ac effeithiol gyda'r sector annibynnol a chynhyrchwyr unigol er mwyn hybu a datblygu syniadau, talent a sgiliau.</p> <p>Y gallu i ennyn parch cydweithwyr, cynhyrchwyr a phartneriaid allanol.</p> <p>Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig).</p> | |
| <p>Nodweddion personol</p> | <p>Yn wylwr brwd o gynnwys drama ar S4C, ar sianeli Prydeinig ac yn fyd-eang.</p> <p>Greddf am syniadau gwreiddiol a phoblogaidd sydd yn apelio i wylwyr o bob demograffeg.</p> <p>Y gallu i gyfathrebu gyda staff ar bob lefel.</p> <p>Y gallu i wrando a derbyn adborth adeiladol a gweithredu ar syniadau da.</p> <p>Y gallu i weithio mewn tîm a chynnig cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn.</p> <p>Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.</p> <p>Y gallu i wneud penderfyniadau cyflym a gweithredu arnynt.</p> <p>Hunan gymhellol, gyda'r awydd a'r gallu i addasu a dysgu sgiliau newydd yn gyflym.</p> <p>Sgiliau cyfathrebu cryf ynghyd â'r gallu i ddatgelu penderfyniadau cynhennus heb effeithio ar berthnasau allweddol.</p> <p>Sgiliau rhyngpersonol cryf mewn sefyllfaedd ffurfiol ac anffurfiol.</p> <p>Y gallu i rwydweithio o fewn y byd darlledu a thu allan.</p> | |

Manylion eraill

- Lleoliad:** Mae S4C yn cynnig trefniadau gweithio'n hyblyg i'w staff. Disgwylir i'r unigolyn deithio i ymweld â chwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru yn rhinwedd y swydd. Bydd hefyd disgwyl presenoldeb rheolaidd yn yr Egin, Caerfyrddin.
- Cyflog:** i'w drafod
- Cytundeb:** 3 mlynedd

- Oriau gwaith:** 35¾ ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio ar rai penwythnosau a gwyliau banc ac mewn digwyddiadau gyda'r nos o bryd i'w gilydd. Bydd y cyflog yn cymryd i ystyriaeth yr oriau ychwanegol y mae'n bosibl y bydd angen i chi weithio.
- Cyfnod prawf:** 6 mis
- Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn, y cyfryw gyfnod i redeg o 1 Ionawr.
- Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12:00 y prynhawn ar ddydd Llun 25 Mawrth 2019 at adnoddau.dynol@s4c.cymru neu'r adran Adnoddau Dynol, S4C, Canolfan S4C yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

Wrth wneud cais ar gyfer y swydd hon disgwylir dadansoddiad manwl o ddarpariaeth drama bresennol y Sianel, barn gref a gweledigaeth ar y ffordd ymlaen. Rydym yn chwilio am weledigaeth, egni, dealltwriaeth a'r gallu i gymryd risg er mwyn symud cynnwys drama y Sianel yn ei flaen. Disgwylir i chi ysgrifennu dadansoddiad cryno ar eich ffurflen gais ac ymhelaethu ar lafar yn ystod eich cyfweiliad.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymhell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys merched, pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.